Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Gwarchod eich babi rhag haint y rotafeirws

un o achosion cyffredin dolur rhydd a salwch sy'n gallu bod yn ddifrifol iawn

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Beth yw'r rotafeirws?

Mae'r rhan fwyaf o fabanod yn cael salwch (taflu i fyny) a dolur rhydd ar ryw adeg. Mae sawl salwch o'r fath yn cael ei achosi gan y rotafeirws.

Mae'r rhan fwyaf o fabanod yn gwella gartref. Gall rhai achosion fod yn ddifrifol gyda babanod yn dadhydradu (colli hylif y corff) ac angen triniaeth mewn ysbyty.

Cyn cyflwyno rhaglen frechu'r rotafeirws, roedd y rhan fwyaf o blant yn cael y rotafeirws ar ryw adeg cyn troi'n bump oed. Yng Nghymru, roedd 1 allan o bob 5 o'r plant yma angen sylw meddygol a bu'n rhaid i 1 allan o bob 10 fynd i ysbyty. Mae'r brechiad yn helpu yn awr gydag atal 7 allan o bob 10 achos o haint y rotafeirws mewn babanod.

Sut mae'r rotafeirws yn lledaenu?

Mae'r rotafeirws yn lledaenu'n hawdd iawn ac mae babanod yn gallu ei basio ymlaen i eraill. Mae'r feirws yn lledaenu drwy gyswllt llaw i geg ac mae'n cael ei godi o arwynebau fel teganau, dwylo neu glytiau wedi'u defnyddio.

Gall golchi dwylo a chadw arwynebau yn lân helpu ond ni all hynny atal lledaenu'r feirws yn llwyr. Y ffordd orau i warchod eich babi yw drwy roi brechiad iddo.

Pryd bydd fy mabi yn cael cynnig y brechiad?

Bydd brechiad y rotafeirws yn cael ei roi gyda brechiadau eraill eich babi yn ddau a thri mis oed. Mae'n rhaid i'ch babi gael dau frechiad rotafeirws bedair wythnos ar wahân o leiaf. Mae'n cael ei roi fel dafnau hylif yn syth yng ngheg eich babi er mwyn iddo ei lyncu.

Os bydd eich babi'n colli un o'r brechiadau, mae posib ei roi hefyd gyda'r brechiadau eraill yn ddau a phedwar mis oed, neu yn dri a phedwar mis oed, ond dim hwyrach.

Pam nad yw babanod hŷn yn gallu cael y brechiad?

Wrth iddynt fynd yn hŷn, mae rhai babanod (tua 1 o bob 1,000) yn gallu cael cyflwr sy'n achosi blocio eu perfedd isaf, o'r enw llawesiad. Mae'n brin iawn cyn tri mis oed ac mae'r rhan fwyaf o achosion yn digwydd rhwng pum mis oed a blwydd oed. Mae siawns fechan iawn, mewn tua 2 o bob 100,000 o fabanod, i ddos cyntaf y brechiad achosi hyn hefyd.

I leihau'r risg, ni fydd y dos cyntaf yn cael ei roi i fabanod hŷn na 14 wythnos, ac ni fydd unrhyw frechiad yn cael ei roi i fabanod hŷn na 23 wythnos.

Beth os bydd fy mabi yn taflu i fyny yn syth ar ôl cael y brechiad?

Nid yw hyn yn digwydd fel arfer, ond os bydd, bydd y dafnau'n cael eu rhoi eto.

A fydd fy mabi yn cael clefyd y rotafeirws o gael y brechiad?

Na fydd, mae'r feirysau yn y brechiad yn cael eu gwanio ac felly nid ydynt yn achosi'r clefyd. Mae'r brechiad yn helpu eich babi i fagu imiwnedd ac felly'r tro nesaf y bydd yn dod i gysylltiad â'r feirws, bydd ganddo'r warchodaeth orau bosib.

Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad agos â babanod wedi'u brechu yn ddiweddar, yn enwedig pobl â systemau imiwnedd gwannach, gadw at arferion hylendid da, er enghraifft, golchi eu dwylo ar ôl newid clwt plentyn.

Oes gan y brechiad unrhyw sgil-effeithiau?

Mae miliynau o ddosys o'r brechiad wedi cael eu defnyddio ac mae ganddo enw da am ddiogelwch.

Gall babanod sydd wedi cael y brechiad fod yn anesmwyth ac yn flin, a gall rhai ddatblygu ychydig o ddolur rhydd.

Mewn achosion prin iawn (tua 2 allan o bob 100,000 o fabanod sydd wedi cael eu brechu), gall y brechiad effeithio ar berfedd isaf babi a gall ddatblygu poen, taflu i fyny ac efallai y bydd yn pasio sylwedd sy'n debyg i jeli coch yn ei glwt, o fewn saith diwrnod i'r brechiad fel rheol. Os bydd hyn yn digwydd, dylech gysylltu â'ch meddyg ar unwaith.

Os ydych chi'n bryderus am iechyd eich babi ar ôl unrhyw frechiad, dylech siarad gyda'ch meddyg neu eich ymwelydd iechyd.

Gallwch roi gwybod am amheuaeth o sgil-effeithiau brechiadau a meddyginiaethau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn ar-lein yn: **yellowcard.mhra.gov.uk** neu drwy ffonio'r llinell gymorth ar **0800 731 6789** (Llun – Gwener, 10am i 2pm).

Beth os bydd fy mabi yn sâl ar ddiwrnod rhoi'r brechiad?

Nid oes rheswm i ohirio'r apwyntiad oni bai fod eich babi yn sâl gyda thymheredd uchel, yn taflu i fyny neu â dolur rhydd.

Oes unrhyw fabanod na ddylai gael y brechiad?

Ni ddylid rhoi'r brechiad i fabanod sydd:

- ✕ dros 23 wythnos oed;
- ✕ dros 14 wythnos oed os ydynt yn dod i gael eu brechiad rotafeirws cyntaf;
- ✕ wedi cael adwaith anaffylactig (adwaith alergaidd difrifol) i ddos blaenorol o'r brechiad, neu i unrhyw rai o'r cynhwysion;
- ✕ â hanes blaenorol o lawesiad (blocio yn y perfedd isaf);
- ✕ â chyflwr tymor hir sy'n effeithio ar y perfedd neu'r system imiwnedd fel imiwnoddiffygiant cyfun difrifol (SCID). Trafodwch hyn gyda'ch meddyg teulu i ddechrau;
- ✕ â thymheredd uchel, dolur rhydd neu'n taflu i fyny ar ddiwrnod yr apwyntiad. Os bydd hyn yn digwydd, dylech aildrefnu'r ymweliad.

Fe gafodd fy mabi ei eni'n gynnar. Pryd ddylid rhoi'r brechiad?

Dylid dilyn y drefn imiwneiddio yn seiliedig ar ddyddiad geni eich babi.

Oes posib bronfwydo fy mabi ar ôl y brechiad?

Oes. Nid oes unrhyw broblemau gyda bronfwydo babanod sydd wedi cael y brechiad rotafeirws yn ddiweddar.

A fydd y brechiad yn atal babanod rhag cael unrhyw salwch neu ddolur rhydd?

Na fydd. Nid y rotafeirws yw unig achos salwch a dolur rhydd mewn babanod. Bydd y brechiad yn atal tua 7 allan o bob 10 o fabanod rhag cael y rotafeirws.

Brechiad rotafeirws – y negeseuon allweddol

- Mae haint gyda'r rotafeirws yn achosi salwch a dolur rhydd mewn babanod a phlant ifanc.
- Gall fod yn ddifrifol iawn ac efallai y bydd rhaid i rai babanod fynd i'r ysbyty.
- Mae'r brechiad rotafeirws yn cael ei roi drwy'r geg gyda brechiadau eraill yn ddau a thri mis oed.
- Bydd dau ddos o'r brechiad rotafeirws yn helpu i atal 7 allan o bob 10 o achosion o haint y rotafeirws mewn babanod.

Ble mae cael mwy o wybodaeth?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth ewch i **111.wales.nhs.uk**, siaradwch â'ch meddyg neu eich nyrs neu ffoniwch **GIG 111 Cymru**.

Os nad yw **111** ar gael yn eich ardal chi, ffoniwch **0845 46 47**. Mae galwadau o linellau tir a ffonau symudol yn costio 2c y funud (a ffi arferol darparwr eich ffôn).

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y brechiad, ei gynnwys a'r sgil-effeithiau posib yn **www.medicines.org.uk/emc**. Rhaid i chi nodi enw'r brechiad (Rotarix) yn y bocs chwilio. Hefyd gallwch edrych ar y daflen ar-lein i gleifion.

Mae'r amserlen o frechiadau sy'n dangos pa frechiadau a gynigir yng Nghymru ar gael yn **111.wales.nhs.uk/livewell/vaccinations/Leaflets**

I archebu mwy o gopïau o'r daflen hon, ewch i: **www.iechydcyhoedduscymru.org/adnoddau-gwybodaeth-iechyd**

I gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i: **111.wales.nhs.uk/lifestylewellbeing/yourinfoyourrights**

Cyhoeddwyd Mawrth 2021
© Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
ISBN 978-1-78986-154-336